*mawr fel dyngarwr, ond pan y trodd i areithio yn gyhoeddus fod crefydd yn gwneyd mwy o ddrwg nag o les, fe giliodd llaweroedd oddi wrtho.* Gyda'r ail osodiad, ni cheisir profi'r pwynt, hynny ydyw, ni ddyfynnir, na chyfeirio at enghreifftiau bywgraffyddol penodol, o ran digwyddiad, a lle. Os rhywbeth nid bywgraffiad cyflawn yw hwn o eiddo Ionawryn Williams. Serch hynny ceir ynddo rai ffeithiau diddorol e.e. pan ddywedir am Robert Owen iddo brynu *tua 30,000 o aceri o dir yn America, gyda'r amcan o sefydlu gwladfa, neu wladfeydd cyfundebol, ond yn siomedig y trodd y cyfan, ond dadleuai nad ei fai ef oedd hynny.* Fodd bynnag, nid oes yma gyfeiriadaeth at arloeswyr Cymreig eraill fel S. R. Llanbrynmair; Michael D. Jones, Y Bala ac amryw byd arall.

Yn y flwyddyn 1910 cyhoeddodd Robert Roberts ddwy gyfrol fechan yn dwyn y teitlau *Robert Owen Cyf. 1* a *Robert Owen Cyf. 2* a gyhoeddwyd gan Swyddfa Cymru, Caernarfon. Y mae'r gyfrol gyntaf yn cynnwys 142 tudalen, a'r ail gyfrol yn 131 tudalen ran hyd. Nid crynodeb a geir yma ond ymdrech burion i bortreadu bywyd Robert Owen y Drenewydd.

Yna, yn y flwyddyn 1948 cyhoeddwyd llyfryn 116 tudalen gan R. O. Roberts, sef *Robert Owen o'r Drenewydd.* Y Clwb Llyfrau Cymraeg a fu'n gyfrifol am ei gyhoeddi.

Estyniad pellach, a gynhwysir yn gryno ar un dudalen, yw'r hyn a geir gan James Frederick Rees (yn) *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (1953), a nodir gan yr awdur rai ffynonellau bywgraffyddol nas cafwyd mewn cyn-fywgraffiadau.

**Deunydd ar gyfer plant ac ieuenctid**

Llyfr wedi ei ddarparu ar gyfer ieuenctid rhwng 9-12 mlwydd oed ydyw *Cymwynaswyr Mawr y Byd,* (1964) o eiddo D. Gwyn Jones. Cynhwysir yno bennod gynhwysfawr ran gwybodaeth, a ffotograffau du a gwyn. Mae'r arddull yn un digon cartrefol, a dadlennir yr hanes yn fywiog a diddorol. Ym 1951 ymddangosodd erthygl gryno sef 'Robert Owen (Y Sosialydd)' yn *Y Cymro Bach, Y Cymro*, a luniwyd gyda phlant ac ieuenctid mewn golwg.

**Erthyglau**

Y mae ar gael yn ogystal nifer go dda o erthyglau yn y Gymraeg, a'r rhain wedi eu cynnwys yma a thraw mewn cylchgronau a newyddiaduron.

**1893** Robert Owen o'r Drenewydd (yn) *Cymru.*

**1901** Adgofion boreu oes. *Y Geninen* ac sy'n cyfeirio'n bendant at gyfarfod mawr yn yr Amffitheatr, Lerpwl, Lloegr, a gynhaliwyd i wrthwynebu syniadau Robert Owen, y Drenewydd. Yr awdur yw David Griffith, Bethel, Arfon, a ddaeth yn weinidog maes o law.

**1502** Robert Owen a Chymru (yn) *Cymru.*

**1932** Y Cymro a wnaeth heb arian (yn) *Y Ford Gron.*

**1932** Robert Owen o'r Drenewydd a New Lanark (yn) *Dysgedydd.*

**1940-41** Robert Owen o'r Drenewydd (yn) *Cefn Cwlad.*

**1948** Arloeswyr rhyddid yng Nghymru (yn) *Dysgedydd.*

**1951** Robert Owen a New Lanark (yn) *Seren Gomer.*

**1971** Robert Owen ac Addysg (yn) *Yr Athro.*


**1975** Dau arwr a dwy ffordd (yn) *Porfeydd.*

**1978** Robert Owen (yn) *Porfeydd.*

**1982** Robert Owen (yn) *Porfeydd.*

**Beriniadaethau**

Cyhoeddwyd rhai beirniadaethau yn ogystal e.e. *Nodiadau hanesyddol a beirniadol ar fywyd a gwaith Robert Owen o'r Drenewdd*, sef gwaith ymchwil Thomas Pugh, a gyhoeddwyd gan W. Williams a'i fab, Treffynnon yn y flwyddyn 1907. Ceir yn llyfr David Tudwal Evans, sef *Sosialaeth*, a welwyd ei gyhoeddi yn y Bermo'n y flwyddyn 1911 dudalen gyfan sy'n ymwneud â Robert Owen, y Drenewydd.



*Bedd Roberts Owen ym Mynwent yr Eglwys yn y Drenewydd (Llun: eiddo'r awdur).*

**Gweithiau o eiddo Robert Owen, y Drenewydd yn y Gymraeg**

Ond y llyfryn mwyaf arwyddocaol yn y Gymraeg ac sy'n cynnwys gweithiau Robert Owen yw *Talfyriad o'r gyfundrefn resymol sefydledig a ffeithiau diwrtheb-brawf, yn amlygu cyfansoddiad a deddfau y natur ddynol… wedi ei gyfieithu o'r Saesoneg dros y Gymdeithas 'The Universal Common Society of the Rational Alligunists yn Manchester'* Cyhoeddiad R. Jones, Bangor yw hwn ac y mae'n cynnwys 12 tudalen i gyd. Fe'i cyhoeddwyd yn y flwyddyn 1841. Fel y gwyddys, yn y flwyddyn 1813 y cyhoeddodd Robert Owen yn y Saesneg *A New View of Society*, neu *Essays on the principles of the Human Character.*

Rhyfedd yw bwrw golwg dros yr hyn a gyhoeddwyd yn y Gymraeg gyda'r blynyddoedd ac sy'n ymdrin ag agweddau ar fywyd a gwaith Robert Owen, (1771 – 1859), a thristach meddwl yn y flwyddyn 2001, ar dri chan mlwyddiant ei enedigaeth, na welwyd cyhoeddi prin erthygl, mwy na phamffledyn, neu lyfryn, i goffau'r gwron. Hwyrach nad yw Robert Owen, a aned a'i gladdu yn y Drenewydd, bellach ond alltud a dieithryn yn ei wlad enedigol. Yn yr oes gor-faterol sydd ohoni, a'r byd newyddionlloerennol y gwyddom mor dda amdano, anodd credu fod hen eiriau cyfareddol ac ystyrlawn fel adnewyddu, *cywiro, diwygio, diwygiwr* a *gwella amgylchiadau a sefyllfa*, wedi mynd ar ddisberod, a'u hystyron yn y fantol. Tybed? Tybed yn wir nad gwir mo hynny?

*Rhai ffynonellau Robert Owen y Drenewydd, drwy gyfrwng y Gymraeg:*


Robert Owen (Y Sosialydd) (yn) 'Y Cymro Bach'. *Y Cymro* Tachwedd 23, 1951 t.10.

Robert Owen a Chymru, *Cymru* (23) Gorffennaf 1902 t.132.

EDWARDS, L, Y Cymro a wnaeth heb arian. *Y Ford Gron* Tachwedd 1932 t.8.

EVANS, David Tudwal, Robert Owen (yn) *Sosialaeth*. Abermaw: W. Jones, 1911 tt.35-36.

FOULKES, Isaac (Llyfrbryf), *Geirlyfr bywraffyddol o enwogion Cymru.* Lerpwl: I. Foulkes, 1870 t.t. 800-801.

GRIFFITH, David, Adgofion boreu oes. Y Cyfarfod Mawr yn yr Amphitheatre, Lerpwl, Lloegr. *Y Geninen* ( 19) Ebrill 1901 t.124.

HALL, Beryl, Robert Owen ac Addysg. *Yr Athro* (23) 1971 t.t.8486.

JONES, David Gwyn, Robert Owen, y Drenewydd (yn) *Cymwynaswyr Mawr y Byd.* Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1964 t.t.40-45.

JONES, David Gwyn, *Robert Owen, 1771 – 1858.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1968; 66 t., darl.

JONES, J. Ogwen gw (14) isod.

OWEN, Robert, *Talfyriad o'r gyfundren resymol sefydledig a ffeithiau diwrtheb-brawf: yn amlygu cyfansoddiad a deddfau y natur ddynol… wedi ei gyfieithu o'r Saesoneg dros y Gymdeithas 'The Universal Common Society of the Rational Alligunists yn Manchester'*. Bangor: R. Jones, 1841, 12t.

OWEN, Robert, Robert Owen o'r Drenewydd. *Cymru* (4) 1893 tt.170-172; 309-311.

OWEN, Robert (Gwilym Cadwgan), Robert Owen yn New Lanark. *Seren Gomer* (5) 1951 tt.79-84.

PARRY, J. a JONES, J. Ogwen, (gol.) *Y Gwyddoniadur (Cymreig.* Dinbych: Thomas Gee, 1856-79 Cyf.8 tt. 1 69-70.

PUGH, Thomas. *Nodiadau hanesyddol a beirniadol ar fywyd a gwaith Robert Owen o'r Drenewydd.* Treffynnon: W. Williams a'i fab, 1907; 116t.

REES, James Frederick. Robert Owen (1771 – 1858). *Y Bywgrafiadyr Cymreig hyd 1940.* Y Cymmrodorion, 1953t.678.

*Robert Owen*. Llanuwchllyn: Ab Owen, 1904; 'Cyfres y Fil; 112 t.; darl.

ROBERTS, J. T., Robert Owen o'r Drenewydd. *Cefn Gwlad* Gaeaf 1940-41 tt.40-42.

ROBERTS, Richard, (1874-1945). *Robert Owen Cyf 1.*, Caernarfon: Swyddfa'r 'Cymru', 1907; 142 t.

ROBERTS, Richard, (1874-1945). *Robert Owen Cyf.2*, Caernarfon: Swyddfa'r 'Cymru', 1907; 131 t.

ROBERTS, R. O. *Robert Owen o'r Drenewydd.* Clwb Llyfrau Cymraeg, 1948; 116 t.

WILLIAMS, Ambrose. Robert Owen. *Porfeydd* (14) 1982 tt.146-149.

WILLIAMS, Ionawryn. Mr. Robert Owen (yn) *Geirlyfr bywgraffyddol yn cynnwys byr-hanes y Cymry mwyaf adnabyddus fuont yn preswylio yn Maencenion*. Salford: J. Roberts a'i feibion, 1896 tt.88-90.

WILLIAMS, J. L., Robert Owen o'r Drenewydd a New Lanark. *Dysgedydd*, Mehefin 1932 tt. 181-185.

WILLIAMS, J. R. Arloeswyr rhyddid yng Nghymru. *Dysgedydd*, Awst 1948 tt.214-217.

WILLIAMS, T. Ceiriog. *Robert Owen*, Abertawe: Hughers a'i Fab, 1975; 43 t.

WILLIAMS, T. Ceiriog. Dau arwr a dwy ffordd. Porfeydd (7) 1975

WILLIAMS, T. Ceiriog. Robert Owen. *Porfeydd* (10) 1978 t.t.